



# Rhentu Tŷ Cyngor gan Gyngor Sir y Fflint

*Yn eich helpu chi i ddewis y cartref iawn*



# Cynnwys

	Tud
Cyflwyniad	3
Canllaw hwylus i Dai Cyngor Sir y Fflint	4
Sut i gofrestru	5
Pwy all wneud cais / Pa deuluoedd sy'n cael blaenoriaeth?	5
Tabl sy'n dangos yr eiddo sydd ar gael yn ôl maint y teulu	6
Stoc tai Sir y Fflint	7,8
Cwestiynau cyffredin	9
Sut i wneud cais i gymdeithasau tai	12
Llety i'w rentu'n breifat a'r cynllun bond	12
Prynu tai fforddiadwy a chyfnwid tai	13
Cysylltiadau defnyddiol	13
Tabl o eiddo i'w osod	15
Cynllun pwyntiau tai Sir y Fflint	17

# Cyflwyniad

---

Mae'r llyfryn hwn yn egluro sut i wneud cais am un o dai Cyngor Sir y Fflint, a sut y byddwn yn penderfynu pwy sy'n cael blaenoriaeth pan gaiff tai eu gosod.

Mae gan Gyngor Sir y Fflint tua 7,400 o dai yn ei stoc tai a chaiff tua 550 eu gosod bob blwyddyn.

Gan fod prinder tai yn Sir y Fflint, does dim digon o dai cyngor i bawb sy'n gwneud cais ond, os na fedrwn ni'ch helpu, byddwn yn gweithio gyda chi i ddatrys eich problem mewn ffordd wahanol.

## Polisi dyrannu tai

---

Ysgrifennwyd y polisi i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol 'Deddf Tai 1996' a 'Deddf Digartrefedd 2002' a Chod Arweiniad Llywodraeth Cymru ar ddyrannu eiddo a digartrefedd.

Bydd y polisi'n sicrhau tegwch yn y modd y caiff cartrefi eu dyrannu, a bydd yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion a dymuniadau'r rhai sy'n gwneud cais am dŷ. Mae'r Cyngor yn defnyddio system bwyntiau i asesu anghenion ymgeiswyr. **Mae copi o'r cynllun pwyntiau ynghlwm yng nghefn y llyfryn hwn.** Mae copi o'r ddogfen bolisi lawn ar gael yn eich Swyddfa Dai Leol (mae'r manylion cysylltu ar dudalen 13).

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal wrth ddarparu ei holl wasanaethau. Gofynnir i ymgeiswyr nodi os oes angen **gwasanaeth cyfieithu** arnynt, neu os oes angen unrhyw wasanaethau arbenigol arall arnynt oherwydd **nam ar eu golwg, eu clyw neu unrhyw anabledd arall.**

Os hoffech gopi o'r cyhoeddiad hwn yn eich iaith eich hun, neu ar fformat arall fel print bras, braille neu ar dâp, cysylltwch â'ch Swyddfa Dai Leol.

Bydd ein staff yn barod iawn i helpu unrhyw un sy'n cael trafferth gyda dogfennau a gallwn gyfweled pobl oeddrannau neu'r rhai sy'n cael trafferth symud, yn eu cartrefi'u hunain.



# Canllawiau hwylus i Dai Cyngor Sir y Fflint

---

Mae'r siart lif isod yn egluro'n fras sut y mae ein polisi dyrannu tai'n gweithio. Mae esboniad manylach i'w gael yn ddiweddarach yn y llyfryn hwn.

I wneud cais am dŷ, rhaid i chi gofrestru'n gyntaf ar ein rhestr aros drwy lenwi ffurflen gais a'i dychwelyd i'ch swyddfa dai leol.



Mae Cyngor Sir y Fflint yn defnyddio cynllun pwyntiau wrth osod eiddo. Ar ôl asesu'ch cais, byddwn yn ysgrifennu atoch i roi cyfeirnod tai unigryw i chi ac i ddweud faint o bwyntiau a roddwyd i chi. Bydd y llythyr hefyd yn dweud wrthy'ch a ydych yn *debygol* ynteu'n *anhebygol* o gael tŷ.



Os oes gan y Cyngor eiddo gwag yn yr ardal rydych chi wedi'i nodi yn eich cais, ac os yw'n addas ar gyfer teulu o'ch maint chi, bydd eich cyfeirnod yn ymddangos ar y rhestr dai. Cewch gynnig yr eiddo os chi sydd â'r nifer fwyaf o bwyntiau pan baratowyd y rhestr h.y. os chi sydd ar frig y rhestr.



Os caiff yr eiddo ei ddyrannu i chi, cewch lythyr yn ei gynnig i chi ynghyd â ffurflen derbyn/gwrthod. Bydd gennych 5 diwrnod gwaith i lenwi a dychwelyd y ffurflen ac i ddweud a ydych yn derbyn ynteu'n gwrthod y cynnig. Ar ôl i'n Gwasanaeth Trwsio orffen yn yr eiddo, cewch gyfle i fynd gyda'r Swyddog Tai Cymdogaeth i'w weld, ac i lofnodi cytundeb tenantiaeth.

# Sut i gofrestru am Dŷ Cyngor

Mae'r holl ymgeiswyr yn defnyddio'r un ffurflen (gan gynnwys tenantiaid presennol sy'n dymuno symud tŷ). Gallwch lenwi ffurflen gais ar wefan Cyngor Sir y Fflint - [www.siryfflint.gov.uk](http://www.siryfflint.gov.uk), gallwch fynd i un o'n Swyddfeydd Tai i nôl ffurflen, neu gallwch wneud cais am ffurflen dros y ffôn. Mae rhestr o'n holl Swyddfeydd Tai yn yr adran Gwybodaeth Ddefnyddiol.

Rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn llenwi pob rhan o'r ffurflen gais yn **LLAWN** ac yn **GYWIR**.

Byddwn yn anfon y ffurflen yn ôl atoch os na fydd **POB** rhan wedi'i llenwi ac os nad ydych wedi anfon y **PRAWF** perthnasol. **PEIDIWCH** ag anfon y dogfennau gwreiddiol yn y post. Anfonwch lungopi neu gall aelod o staff gopïo'r dogfennau os ewch chi â nhw i un o'n Swyddfeydd Tai.



## Pwy all wneud cais am Dai Cyngor Sir y Fflint?

Caiff pobl sy'n bodloni'r amodau isod wneud cais am dŷ a chael eu cynnwys ar y gofrestr dai:

- Pobl sy'n byw yn y DU ac sy'n 16 oed neu'n hŷn – mae hyn yn cynnwys tenantiaid Sir y Fflint sy'n awyddus i symud tŷ.

Gwladolion Prydain ac Ardal Economaidd Ewropeaidd (gwledydd yr Undeb Ewropeaidd a Gwlad yr Iâ, Norwy a Liechtenstein) sy'n 16 oed neu'n hŷn sy'n byw fel arfer yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Weriniaeth Iwerddon (Ardal Deithio Gyffredin). Os ydych yn byw yn y DU ers llai na 2 flynedd, bydd angen i'r Cyngor ymchwilio ymhellach.

- Ffoaduriaid neu bobl eraill sydd wedi cael caniatâd i aros yn y DU.

## Pwy na all wneud cais am dŷ?

- Unigolion dan 16 oed
- Pobl y mae rheolaeth mewnfudo'n gymwys iddynt o fewn ystyr Deddf Lloches a Mewnfudo 1996 (c.49) oni bai eu bod mewn dosbarth a ragnodwyd gan reoliadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru.
- Pobl sy'n perthyn i ddsbarthiadau eraill a ragnodir gan Lywodraeth Cymru yng nghyswllt pobl o dramor
- Gallwn ystyried gohirio'ch cais os ydych wedi'ch cael yn euog o ymddygiad annerbyniol difrifol e.e. ymddygiad gwrthgymdeithasol, dyledion rhent neu unrhyw euogfarnau eraill.

## Pa deuluoedd sy'n cael blaenoriaeth?

- person/pobl sy'n ddigartref ac mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd o dan y Gyfraith Digartrefedd tuag atynt.
- person/pobl sy'n byw mewn tai aflan neu orlawn neu sydd mewn cyflwr anfoddhaol arall
- person/pobl y mae angen iddynt symud ar sail eu hiechyd neu eu lles (gan gynnwys anabled)
- person/pobl y mae angen iddynt symud i ardal benodol gan y bydden nhw neu rywun arall yn wynebu caledi pe na baent yn symud.



## Pa fath o eiddo gaiff ei gynnig?

Mae'r siart isod yn dangos maint delfrydol yr eiddo a gaiff ei gynnig i deuluoedd:

Maint y teulu	Maint yr eiddo
Person sengl/cwpl	Fflat un ystafell Fflat un llofft Fflat dwy lofft Byngalo (os yw'n gymwys)
Teulu ag un plentyn	Tŷ dwy lofft Fflat dwy lofft ar y llawr daear Tŷ tair llofft
Teulu â 2 blentyn o'r un rhyw neu frawd a chwaer o dan 10 oed	Tŷ dwy lofft (mawr) Tŷ tair llofft
Teulu â 2 blentyn sy'n frawd a chwaer, ac un ohonynt dros 10 oed	Tŷ tair llofft
Teulu â 3 plentyn	Tŷ tair llofft Tŷ tair llofft a 2 ystafell fyw Tŷ pedair llofft
Teulu â 4 o blant neu ragor	Tŷ tair llofft a 2 ystafell fyw Tŷ pedair llofft Tŷ 4 llofft a 2 ystafell fyw

## Ble mae'r tai / fflatiau / byngalos?

Edrychwch ar y tabl a'r dudalen nesaf cyn llenwi ffurflen gais gan eu bod yn dangos yr eiddo sydd gennym yn ein stoc tai. Bydd y wybodaeth yn y tabl ac ar dudalen 16 yn eich helpu chi i benderfynu pa ardal yr hoffech rentu eiddo ynddi. Byddwch yn gallu gweld faint o eiddo sydd yn yr ardal dan sylw a pha mor aml y maent yn cael eu gosod. Os ydych yn dewis ardal rhy gyfyngedig, rydych yn llai tebygol o gael cynnig eiddo i'w rentu.

**Flintshire County Council Stock Oct 2011**

Area	1 Bed Properties	2 Bed Properties	3 Bed Properties	4 Bed House	Over 55's 1 Bed	Over 55's 2 Bed	1 Bed Sheltered	2 Bed Sheltered
Abermorddu		16	11		12	0	0	0
Bagillt (East)		44	49		8	5	39	1
Bagillt (West)		14	74		0	0	20	2
Berthengam		5	19			0	0	12
Broughton		37	157	3	22	0	23	0
Bretton					10	0	0	0
Brynford			16		0	0	0	22
Buckley	44	82	239	11	57	9	148	1
Caergwrle		2	51	1	7	0	0	0
Caerwys		2	8	0	0	0	13	26
Carmel		3	0	0	2	4	0	0
Cilcain		0	2	0	0	8	0	0
Connahs Quay	47	145	268	3	31	6	210	24
Cymau		0	9	6	5	0	0	0
Dobshell		5	5	0	0	0	0	0
Drury		4	22	0	0	0	27	0
Ewloe		0	33	0	0	0	44	14
Ffrith		0	7	0	0	0	0	0
Flint (Castle)	3	10	163	2	0	0	39	132
Flint (Coleshill)		27	27	2	0	0	87	123
Garden City	1	23	30	3	9	0	14	0
Greenfield		11	147	0	5	5	19	16
Gronant		0	3	1	0	0	0	55
Gwaenysgor		0	5	0	0	8	0	0
Gwernaffield		0	3	0	0	0	0	29
Gwernymynydd		0	9	0	0	0	0	0
Gwespyr		0	11	0	0	0	4	16
Halkyn		0	2	0	0	7	0	0
Hawarden		7	65	5	19	0	0	0
Holway		1	114	0	0	14	0	0
Holywell (central)	2	5	7	0	0	0	0	0

Flintshire County Council Stock Oct 2011								
Area	1 Bed Properties	2 Bed Properties	3 Bed Properties	4 Bed House	Over 55's 1 Bed	Over 55's 2 Bed	1 Bed Sheltered	2 Bed Sheltered
Holywell Llwyn Aled/ Beuno		1	0	0	0	0	60	14
Holywell Strand	8	22	146	10	0	0	0	0
Hope		11	19	0	0	0	0	0
Kinnerton		0	8	0	12	0	0	0
Leeswood		25	36	5	0	0	14	22
Lixwm		0	1	0	0	0	0	15
Mancot		14	55	0	12	0	76	25
Mold	46	93	283	13	8	5	27	12
Mostyn		44	74	11	0	9	18	66
Mynydd Isa		1	8	0	0	7	0	0
Nerowys		1	0	0	0	0	8	4
New Brighton		0	12	0	0	0	0	20
Northop		0	21	0	0	0	5	18
Northop Hall		1	15	0	4	4	0	25
Oakenholt	3	23	164	1	0	0	0	0
Pentre Halkyn		7	15	0	0	0	0	28
Peny Y Maes	20	45	35	3	0	0	18	0
Penyffordd (Chester)		1	34	0	0	0	0	0
Penyffordd (Holywell)		3	35	0	0	0	0	0
Pontybodkin		13	2	0	0	0	0	0
Queensferry	1	11	53	5	28	0	0	0
Rhes Y Cae		0	1	0	0	4	0	0
Rhosesmor		3	4	0	0	0	0	32
Rhydymwyn		2	12	0	0	0	2	22
Saltney		63	294	10	17	0	78	1
Sandycroft		4	24	1	25	10	0	0
Sealand	9	59	82	0	7	1	18	0
Shotton	2	56	207	14	63	7	133	3
Sychdyn		1	9	0	0	12	0	0
Trelawny		0	4	0	0	0	0	0
Trelawnydd		0	12	0	0	0	6	24
Treuddyn		30	21	4	0	0	29	1
Whitford		2	2	0	0	0	0	0



# Beth sy'n digwydd ar ôl i mi wneud cais am dŷ?

Cewch lythyr yn dweud a yw'ch cais wedi'i dderbyn ar y Gofrestr Tai. Os yw wedi'i dderbyn, cewch y wybodaeth a ganlyn.

- **Cyfeirnod unigryw.** Bydd angen i chi ei nodi mewn unrhyw ohebiaeth.
- **Dyddiad cofrestru'ch cais.**
- **Y pwyntiau a roddwyd i chi.** Bydd y rhain yn cael eu hasesu gan ddefnyddio'r cynllun yng nghefn y llyfryn hwn.

**Byddwch yn cael gwybod naill ai:**

**Nad ydych yn debygol** o gael tŷ Cyngor – sy'n golygu nad ydych wedi'ch cynnwys yn un o'r grwpiau sy'n cael blaenoriaeth ac mae'ch pwyntiau mor isel, mae'n deg dweud, ar sail nifer yr eiddo gwag sydd ar gael ar gyfartaledd bob blwyddyn, na fydd eich cais yn cael eich ystyried, NEU

**dim ond** ar gyfer eiddo llai poblogaidd y cewch eich ystyried. **NID YW'N GWARANTU** y byddwn yn gallu cael hyd i eiddo i chi. Nid yw ychwaith yn golygu y byddwn yn gallu dweud wrthyh am ba hyd y bydd angen i chi aros am dŷ.

## Cwestiynau cyffredin

---

### C. Beth sy'n digwydd os nad ydw i'n cytuno â nifer y pwyntiau a roddwyd i mi?

Eich man cyswllt cyntaf yw'ch Swyddog Tai Cymdogaeth a fydd yn gallu esbonio'r system bwyntiau'n well ac yn gallu trafod posibiladau eraill o ran cael hyd i dy. Os nad ydych yn fodlon ar y canlyniad, anfonwch eich sylwadau drwy lythyr at eich Rheolwr Tai Cymdogaeth lleol.

### C. Mae gennyf gyflwr meddygol. Ydi hyn yn golygu y caf fwy o bwyntiau?

Os oes gennych gyflwr meddygol sy'n gwaethygu oherwydd y lle'r ydych yn bwy ynddo ar hyn o bryd, gallwch anfon Ffurflen Hunanasesiad Meddygol. Cewch y ffurflen hon gan eich Swyddfa Dai Cymdogaeth Leol. Anfonwch hefyd lythyrau / adroddiadau ategol gan unrhyw berson proffesiynol perthnasol (Therapydd Galwedigaethol, Gweithwyr Cymdeithasol, Meddyg Teulu etc.).

Caiff y wybodaeth hon ei chyflwyno i grŵp o weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a thai sy'n cyfarfod bob mis i asesu'r ceisiadau meddygol. Bydd y Panel Meddygol yn penderfynu ar y pwyntiau i'w dyfarnu i chi.

Ni chewch bwyntiau oni bai ei bod yn amlwg y byddai'ch iechyd neu'ch safon byw yn gwella wrth gael symud i eiddo arall.

### **C. Pa mor hir fydd angen i mi aros cyn cael cynnig tŷ?**

Byddwn yn ceisio prosesu'ch cais cyn pen 14 diwrnod ar ôl iddo ddod i law, cyhyd â'n bod wedi cael yr HOLL ddogfennau angenrheidiol, ac oni bai bod angen Asesiad Meddygol neu wybodaeth ychwanegol.

Bydd y cyfnod y bydd yn rhaid i chi aros yn dibynnu ar y math o eiddo rydych wedi gwneud cais amdano, ym mha ardal, a'r galw am eiddo yn yr ardal honno.

### **C. Faint o bwyntiau sydd eu hangen arnaf i gael tŷ?**

Does dim uchafswm pwyntiau. Mae rhestrau gwahanol ar gyfer pob ardal lle mae tai Cyngor ac mae gennym restrau gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o deuluoedd.

Mae'r rhestru tai'n amrywio o'r naill ardal i'r llall. Mae mwy o alw mewn trefi poblog na mewn ardaloedd gwledig. Bydd y pwyntiau hefyd yn dibynnu ar y nifer sydd wedi'u cofrestru ar y rhestr sydd wedi dewis yr ardal lle mae tŷ i'w osod a faint o dai sydd ar gael i'w gosod yn yr ardal. Ewch i dudalennau 7 a 14 i weld ein rhestr o stoc tai.

### **C. Rwyf wedi cael Rhybudd i Arael. Fedrwch chi gael hyd i dŷ i mi'n fuan?**

Mae angen i chi gysylltu â Thîm Dewisiadau Tai Sir y Fflint drwy ffonio 01357 703777 neu anfonwch e-bost at [housingoptions@flintshire.gov.uk](mailto:housingoptions@flintshire.gov.uk) cyn gynted ag y byddwch yn meddwl y byddwch yn ddigartref. Ni all y Tîm Dewisiadau Tai gynnig llety i chi'n hawdd nac yn gyflym, ond gallant weithio gyda chi i geisio datrys eich problem mewn modd priodol.

### **C. Beth sy'n digwydd os bydd dau ymgeisydd yn yr un grŵp blaenoriaeth â'r un nifer o bwyntiau?**

Yn y sefyllfa hon, yr ymgeisydd sydd wedi cofrestru am y cyfnod hiraf fydd yn cael cynnig yr eiddo.

### **C. Os byddaf yn gwrthod cynnig, a fyddaf yn mynd i waelod y rhestr?**

Na fyddwch. Cewch wrthod dau gynnig mewn cyfnod o 12 mis ond os byddwch yn gwrthod y trydydd cynnig, mae'n bosibl y cewch eich gwahardd o'r gofrestr tai am 6 mis. Dim ond os byddwch wedi gwrthod cynigion 'rhesymol' yn yr ardal rydych wedi'i dewis y bydd hyn yn digwydd. Os nad ydych yn cytuno â'r gwaharddiad, gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad drwy ysgrifennu at yr Arweinydd Tîm Tai Cymdogaeth.

### **C. Fedra i wneud cais am lety cysgodol os ydw i dan 60 oed?**

Mae cynlluniau cysgodol Sir y Fflint fel arfer yn dyrannu llety i bobl dros 60 oed, ond mae gennym nifer o gynlluniau ar gyfer pobl dros 50 oed. Os nad oes galw am lety i'r rhai dros 60 oed, byddwn yn ystyried ymgeiswyr iau (dros 50 oed fel arfer).

Os oes angen i deulu fyw ar y llawr daear oherwydd rhesymau meddygol neu oherwydd anabled, byddwn yn eu hasesu ar gyfer byngalo / fflat mewn cynllun cysgodol.

**C. Rwy'n denant sy'n byw yn un o dai teulu Cyngor Sir y Fflint ac rwy'n ystyried gwneud cais am fyngalo cysgodol. A oes unrhyw gymhellion ar gael i'm helpu i symud?**  
Oes. Gallwn dalu'ch costau symud a/neu dalu i ailgysylltu'ch ffôn, eich popty etc os gallwch brofi na allwch wneud hyn eich hun. Mae amodau a thelerau'n Cynllun Cymhellion i Denantiaid ar gael yn eich Swyddfa Dai Leol.

**C. Beth sy'n digwydd os byddaf am wneud cais i ymuno â'r rhestr i gael tŷ yn y dyfodol, ond nid rŵan?**

Gallwch wneud cais i'ch ffurflen gael ei rhoi ar y rhestr 'ohiriedig'. Bydd eich cais yn dal yn cael ei adolygu bob blwyddyn a bydd eich cais yn cronni pwyntiau tra byddwch ar y gofrestr, ond ni fyddwch yn cael eich ystyried ar gyfer unrhyw eiddo gwag a fydd yn codi. **Eich cyfrifoldeb chi fydd rhoi gwybod i ni pryd y byddwch am i ni ddechrau ceisio cael hyd i dŷ i chi**, ond nid yw hyn yn golygu y cewch dŷ ar unwaith.

**C. Beth os byddaf yn newid cyfeiriad neu os bydd fy amgylchiadau'n newid?**

Y cyfan y mae angen i chi ei wneud yw cysylltu â'ch Swyddfa Dai Leol (manylion ar dudalen 13) a llenwi ffurflen amgylchiadau newydd.

**C. Os caf dŷ Cyngor, a fyddaf yn gallu cadw fy anifail anwes?**

Cewch, cyhyd â'ch bod yn cael caniatâd ysgrifenedig y Cyngor, ac nad yw'r anifail yn achosi niwsans na phoendod nac yn aflonyddu ar bobl eraill. Mae rhai eithriadau a bydd gan eich Swyddog Tai Cymdogaeth wybodaeth am hyn pan gewch gynnig tŷ.

## Oes gwir angen i mi symud? Oes yna ddewis arall?

**Mae gennym staff hyfforddedig sydd ar gael i'ch helpu gyda'r canlynol:-**

- Gwneud cais i gael grant i addasu'ch cartref neu grant cyfleusterau anabl
- Cynlluniau cydberchnogaeth
- Rhentu yn y sector preifat
- Rhentu eiddo gan Gymdeithas Dai
- Cyfnewid cartref gyda thenant arall y Cyngor – ewch i dudalen 12
- Budd-dal Tai
- Achub eich morgais
- Cyngor Dewisiadau Tai os ydych mewn perygl o fod yn ddigartref

Mae'r manylion cysylltu i'w cael ar y dudalen Cysylltiadau Defnyddio ar dudalen 13 neu cysylltwch â'ch swyddfa leol i gael cyngor.



## Sut i wneud cais i Gymdeithasau Tai

I gynyddu'r siawns i gael tŷ gan landlord cymdeithasol, gallwch wneud cais yn uniongyrchol i gymdeithasau tai lleol drwy lenwi ffurflen gais. Y prif gymdeithasau tai sydd ag eiddo yn Sir y Fflint yw Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Cymdeithas Tai Wales & West a Chymdeithas Tai Clwyd. Mae manylion cysylltu'r cymdeithasau hyn i'w cael yn yr adran Gwybodaeth Ddefnyddiol.

## Cael eich enwebu ar gyfer eiddo Cymdeithasau Tai

Mae'n rhaid i gymdeithasau tai roi 50% o'u heiddo gwag i'r rhai sydd ar gofrestr tai Sir y Fflint. I gael eich enwebu ar gyfer eiddo cymdeithasau tai, gofalwch eich bod wedi ticio'r blwch perthnasol ar y ffurflen Cais am Dŷ gan Gyngor Sir y Fflint yn yr adran 'Dewisiadau eraill'.

## Rhentu'n breifat

Mae digon o eiddo i'w rentu'n breifat yn Sir y Fflint ac mae eiddo ar gael yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Ewch i'n gwefan tai i gael rhagor o wybodaeth: [www.taisiryfflint.co.uk](http://www.taisiryfflint.co.uk), cliciwch ar 'eiddo sydd ar gael'.

Cewch y wybodaeth ddiweddaraf am landlordiaid lleol yn y papurau newydd lleol ac ar wefannau fel [www.rightmove.co.uk](http://www.rightmove.co.uk) <<http://www.rightmove.co.uk>> neu [www.zoopla.co.uk](http://www.zoopla.co.uk) <<http://www.zoopla.co.uk>>.

## Cynllun Bond Sir y Fflint

Gan weithio mewn partneriaeth ag YMCA Cymru, gall Cynllun Bond Sir y Fflint helpu pobl na allant fforddio'r blaendal y mae angen ei dalu i rentu eiddo gan landlordiaid cymdeithasol. Gallwn eich helpu chi drwy gynnig blaendal nad yw'n arian parod, eich helpu i lenwi'r ffurflen budd-dal tai a gofalu'ch bod yn gwybod faint o rent y mae angen i chi ei dalu i'r landlord. Gallwn roi cyngor ynghylch problemau gyda'ch tenantiaeth fel trafferthion talu rhent neu problemau o ran gwaith trwsio a gallwn siarad yn uniongyrchol gyda'r landlord ar eich rhan.

## Pwy sy'n gymwys?

- Pobl dros 16 oed sydd â chysylltiadau teuluol ag ardal Sir y Fflint
- Pobl sengl neu gyplau heb blant
- Pobl y mae'r Tîm Dewisiadau Tai wedi penderfynu y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt
- Pobl ddi-gartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddi-gartref
- Pobl sy'n cael budd-daliadau neu sydd ar incwm isel
- Pobl sy'n chwilio am le i'w rentu'n breifat ond na allant fforddio'r blaendal
- Pobl sydd â chynilion o lai na £250

Cysylltwch â ni i drafod y cynllun ymhellach.

## Prynu tai fforddiadwy

Drwy'r cynllun hwn, mae modd helpu pobl na allant fforddio prynu eiddo na rhentu'n breifat. Un o flaenoriaethau Cyngor Sir y Fflint yw darparu cartrefi fforddiadwy i bobl leol drwy weithio gyda chymdeithasau tai a datblygwyr lleol.

**Rhent fforddiadwy** – eiddo sydd ar gael i ymgeiswyr sydd mewn gwaith ond na allant fforddio prynu tŷ, neu nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae'r rhent fel arfer yn cyfateb i oddeutu 80% o rent eiddo ar y farchnad leol.

**Rhannu ecwiti** – cewch gyfran o'r eiddo gyda chymorth morgais, a'r Cyngor neu'r gymdeithas dai fydd yn berchen ar y gweddill. Ni fyddwch yn talu rhent ar y gyfran sy'n weddill. Pan gaiff yr eiddo ei werthu, gall y Cyngor hawlio'i gyfran briodol o werth yr eiddo.

**Cymorth Prynu** – cewch fenthyciad o 30 – 50% o werth yr eiddo ar y farchnad agored. Yna cewch yr arian ar gyfer y ganran sy'n weddill. Ni fyddwch yn talu rhent na llog ar y benthyciad ond pan gaiff yr eiddo ei werthu, bydd yn rhaid i chi ad-dalu'r ganran briodol o werth cyfredol yr eiddo ar y farchnad agored.

**Cyberchnogaeth** - cewch brynu'ch cartref neu gartref newydd (50% fel arfer) a rhentu'r gweddill gan y Gymdeithas Tai/Datblygwr.

Os oes gennych ddiddordeb mewn prynu tŷ fforddiadwy, cysylltwch â Chymdeithas Tai Clwyd – mae'r manylion cysylltu yn yr adran Gwybodaeth Ddefnyddiol.

## Cyfnewid tai

Os ydych yn denant tŷ Cyngor neu gymdeithas dai ar hyn o bryd ac yn awyddus i symud, gallwch gofrestru i gyfnewid tŷ â pherson arall sy'n rhentu tŷ Cyngor neu gymdeithas dai mewn unrhyw ardal drwy nodi'ch manylion am ddim ar wefan Homeswapper, sef: [www.homeswapper.co.uk](http://www.homeswapper.co.uk). I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'ch Swyddfa Dai Leol.




## Cysylltiadau Defnyddiol

### Swyddfeydd Tai Lleol


#### Swyddfa Ardal y De

Neuadd y Sir  
Yr Wyddgrug  
CH7 6NT

 01352 701500 (derbynfa)


#### Swyddfa Ardal y Gogledd \*

Adeiladau'r Kings Head  
Heol Fawr  
Treffynnon

CH8 7TH  
 01352 701750

#### Swyddfa Ardal y Dwyrain

Wepre Drive  
Cei Connah  
CH5 4HB

 01352 701190

\* Bydd Swyddfa Ardal y Gogledd yn symud i Swyddfeydd y Sir yn y Fflint yn 2012 ond ni fydd y rhif ffôn yn newid

Cyngor Ar Bopeth: <http://www.flintshirecab.org.uk>

### Yr Wyddgrug

The Annexe Tŷ Terrig  
Stryd Caer  
YR WYDDGRUG  
Sir y Fflint  
CH7 1EG  
Ffôn: 01352 753520

### Treffynnon

Yr Hen Lyfrgell  
Lôn Swyddfa'r Post  
TREFFYNNON  
Sir y Fflint  
CH8 7LH  
Ffôn: 01352 711262

### Shelter Cymru

advicenorth@sheltercymru.org.uk  
Blwch 2293  
Wrecsam  
LL11 0FB  
Ffôn: 0845 075 5005

### Cynllun Bond Sir y Fflint

Tîm Cymorth y Sector Preifat  
Swyddfeydd y Sir  
Lôn y Capel  
Y FFLINT  
01352 703808 neur 703811

### Budd-daliadau Tai

Tîm Budd-daliadau  
Cyngor Sir y Fflint  
Neuadd y Sir  
Yr Wyddgrug  
CH7 6NA  
01352 704848

### Cymorthfeydd Budd-daliadau:

Cynhelir cymorthfeydd yn ein swyddfeydd yn Nhreffynnon a Chei Connah. Bydd cynghorwyr wrth law i ateb cwestiynau a does dim angen trefnu amser ymlaen llaw.

#### • Swyddfeydd y Sir, Treffynnon

Dydd Mawrth a dydd Iau; 09.00 – 12.00  
Adeilad y King's Head, Heol Fawr, Treffynnon, CH8 7TH

#### • Swyddfeydd y sir cei Connah

Dydd Llun; 09.00 – 12.00  
Y Ganolfan Ddinesig, Cei Connah, CH5 4HB

**Llinell Gymorth Dyledion Tai - 0800 107 1340 6917**

[www.housing-debt-helpline-wales.org](http://www.housing-debt-helpline-wales.org)

**Cyngor ynghylch Mewnfudo - 020 7357**

[www.iasuk.org](http://www.iasuk.org)

### Cymdeithasau Tai Lleol:

#### Cymdeithas Tai Clwyd Alyn

72 Ffordd William Morgan  
Parc Busnes Llanelwy  
Llanelwy  
Sir Ddinbych  
LL17 OJD  
Ffôn: 01745 536800  
[www.clwydalyn.co.uk](http://www.clwydalyn.co.uk)

#### Cymdeithas Tai Clwyd

54 Stryd y Dyffryn  
Dinbych  
LL16 3BW  
Ffôn: 0345 230 3140  
[www.taiclwyd.com](http://www.taiclwyd.com)  
E-bost: [affordablehomes@taiclwyd.com](mailto:affordablehomes@taiclwyd.com)

#### Cymdeithas Tai Wales and West

Swyddfa Gogledd Cymru  
Uned 2  
Parc Busnes y Fesen  
Ffordd Aber  
Y Fflint  
CH6 5YN  
Ffôn: 0800 052 2526  
[www.wwha.net](http://www.wwha.net)

**Nifer yr eiddo a osodwyd mewn cyfnod o 12 mis (Hydref 2011-12)**

	Fflat 1 llofft	Fflat 2/3 llofft	Tŷ 2 llofft	Tŷ 3 llofft	Fflat deulawr 2/3 llofft	Byngalo i bobl dros 55 oed	Byngalo 1 llofft i bobl dros 60 oed	Byngalo 2 llofft i bobl dros 60 oed	Fflat i bobl dros 60 oed
<b>ARDAL Y GOGLEDD</b>									
Bagillt		4	2	6		2	5	2	
Caerwys							1	1	
Y Fflint		3	1	23			2	4	22
Maes Glas				5	7		2	3	
Gronant				1				5	10
Treffynnon	1	5	5	16			3		
Holway				8		2			
Mostyn			5	2				7	
Pentre Helygain			2					1	
Penyffordd				4				2	
Rhewl						1			
Rhosesmor				1				5	
Strand				3					
Trelawnyd				1			1	1	
Trelogan				1					
<b>CYFANSWM</b>	<b>1</b>	<b>12</b>	<b>13</b>	<b>73</b>	<b>7</b>	<b>5</b>	<b>14</b>	<b>31</b>	<b>32</b>
<b>ARDAL Y DE</b>									
Brychdyn		2	2			3			3
Bwcle	3	17	1	6		3	10		6
Caergwrle			2	4			3		1
Cilcain						1			
Cymau				3		1			
	<b>Fflat 1</b>	<b>Fflat 2/3</b>	<b>Tŷ 2</b>	<b>Tŷ 3</b>	<b>Fflat</b>	<b>Byngalo i</b>	<b>Byngalo 1</b>	<b>Byngalo 2</b>	<b>Fflat i</b>

	llofft	llofft	loffft	llofft	deulawr 2/3 llofft	bobl dros 55 oed	llofft i bobl dros 60 oed	llofft i bobl dros 60 oed	bobl dros 60 oed
Drury				1					
Gwernymynydd						1			1
Penarlâg			1	3		3			
Yr Hob			1	1			2		
Coed-llai			1	2			1		
Yr Wyddgrug	6		7	8		1	2		2
Nannerch						2			
Nercwys									2
New Brighton								1	
Northop Hall				1				1	
Penyffordd				2		1			1
Pontybotgin			1						
Rhydymwyn								4	
Saltney			6	14		1	12		
Sychdyn						2			
Treuddyn			2				3	1	
<b>CYFANSWM</b>	<b>9</b>	<b>17</b>	<b>24</b>	<b>47</b>		<b>19</b>	<b>33</b>	<b>7</b>	<b>16</b>
<b>ARDAL Y DWYRAIN</b>									
Cei Connah	7	4	9	10	1	0	13	0	13
Ewlo				5			3		4
Garden City			1	3			3		
Mancot		1		2		1	4		4
Queensferry				7		3			
Sandycroft		1				1			1
Sealand	1	1		6		1	13		
Shotton		1	1	10		2			6
<b>CYFANSWM</b>	<b>8</b>	<b>8</b>	<b>11</b>	<b>43</b>	<b>1</b>	<b>8</b>	<b>36</b>	<b>0</b>	<b>28</b>



# Polisi'r Cynllun Pwyntiau

Byddwn yn asesu pob cais cymwys gan ddefnyddio'r cynllun pwyntiau a ganlyn:

Categori	Meini prawf	Pwyntiau
Cysylltiadau lleol	<p><b>Yn preswyllo yn Sir y Fflint -</b></p> <p>Mae'r cwsmer eisoes yn byw yn sir Fflint a hynny o ddewis. 1 pwynt am bob blwyddyn lawn.</p>	<b>Uchafswm o 10</b>
	<p><b>Wedi preswyllo yn Sir y Fflint yn y gorffennol</b></p> <p>Mae'r cwsmer yn byw y tu allan i ardal Cyngor Sir y Fflint ar hyn o bryd ond roedd yn byw yn yr ardal am 5 mlynedd neu ragor yn y gorffennol, a hynny o ddewis. 1 pwynt am bob cyfnod o 5 mlynedd. 1 pwynt am bob blwyddyn wedyn hyd at uchafswm o 10 mlynedd.</p> <p>D.S. Gall aelodau'r <b>Lluoedd Arfog</b> fod â chysylltiad lleol drwy gyfrwng preswyliaeth neu gyflogaeth.</p>	<b>Uchafswm o 10</b>
<b>Amser aros</b>	1 pwynt am bob blwyddyn ar y Gofrestr Tai.	<b>Uchafswm o 10</b>
<b>Pwyntiau meddygol</b>	<p>Bydd y 'Panel Asesu' yn rhoi pwyntiau ar ôl cael 'Ffurflen Asesiad Meddygol'.</p> <p>Achosion sy'n peryglu bywyd neu sy'n debygol o ddatblygu felly, ac mae'r eiddo presennol yn cyfrannu at y broblwm</p>	<b>100</b>
	<p>Achosion critigol ac mae gan yr ymgeisydd neu aelod o'r teulu:</p> <p>Salwch, anabledd neu gyflwr corfforol neu feddyliol difrifol neu anhwylder ymddygiad, sy'n creu camweithredu difrifol yn yr uned deuluol e.e. salwch marwol, anabledd parhaol neu gyflwr sy'n gwaethygu ac nid ydynt yn gallu ymdopi yn eu heiddo presennol. Symud tŷ yw'r unig ddewis.</p> <p>Yn yr ysbyty ac yn methu dychwelyd adref gan fod yr eiddo'n gwbl anaddas ar gyfer eu hanghenion hirdymor oherwydd ei gynllun, ei leoliad a/neu nid oes modd ei addasu ar gyfer pobl anabl.</p>	<b>60</b>
	<p>Achos brys gan fod yr ymgeisydd neu aelod o'r teulu:</p> <p>Yn methu defnyddio cyfleusterau hanfodol yn yr eiddo e.e. bath, toiled. Neu mae'r fynedfa i'r eiddo ei hun yn gwbl anaddas. Nid oes modd addasu'r eiddo i ddiwallu'u hanghenion neu ni fyddai'n gost effeithiol addasu'r eiddo neu ni fyddai'n diwallu anghenion hirdymor yr ymgeisydd.</p> <p>Nid yw'r eiddo'n diwallu anghenion meddyliol yr</p>	<b>40</b>

	ymgeisydd.															
	<p>Mae'r ymgeisydd neu aelod o'r teulu: Yn cael trafferth defnyddio cyfleusterau neu ystafelloedd yn yr eiddo, neu'n cael trafferth mynd i mewn i'r eiddo, a byddai symud tŷ'n ei helpu. Yn wynebu problemau iechyd neu ofal cymdeithasol sy'n debygol o wella os cânt symud tŷ neu symud yn agosach at berthnasau i gael cymorth.</p> <p>Yn dioddef o salwch meddwl a byddai symud tŷ'n ei helpu.</p>	<b>20</b>														
<p><u>Meini prawf ar gyfer ailasesu'r pwyntiau meddygol:</u> Bydd y Panel Meddygol yn ailasesu'ch pwyntiau os bydd eich amgylchiadau'n newid ers yr asesiad blaenorol, neu os cafwyd gwybodaeth ychwanegol nad oedd ar gael i'r panel cynt ac sy'n dangos y dylid rhoi mwy o bwyntiau oherwydd angen. Bydd y Panel Meddygol yn cysylltu â'r Grŵp Tai Arbenigol os yw'n annhebygol y bydd gan Gyngor Sir y Fflint eiddo addas ar gyfer achosion difrifol / arbenigol e.e. llety sydd wedi'i addasu'n llawn ar gyfer defnyddiwr cadair olwyn.</p> <p>Os derbynnir achos a gyfeiriwyd at y Grŵp Tai Arbenigol, enwebir yr ymgeisydd oddi allan i reolau enwebu arferol ac ni fydd angen i'r cwsmer gymhwyso ar sail pwyntiau. Caiff ein stoc tai arbenigol ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.</p>																
<b>Eiddo gorlawn</b>	<p><b>Am bob llofft sy'n brin yn yr eiddo.</b></p> <p>Dyma sut y pennir faint o lofftydd sydd ei angen ar y teulu:</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Teulu</th> <th>Nifer y llofftydd ychwanegol sydd eu hangen</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Rhiant sengl</td> <td>Un llofft (lle i 1 gwely)</td> </tr> <tr> <td>Cwpl</td> <td>Un llofft (lle i 2 wely)</td> </tr> <tr> <td>Un plentyn</td> <td>Un llofft (lle i 1 gwely)</td> </tr> <tr> <td>Dau blentyn dan 8, un o bob rhyw</td> <td>Un llofft (lle i 2 wely)</td> </tr> <tr> <td>Dau blentyn gwahanol ryw dros 8</td> <td>Dwy lofft (lle i 2 wely)</td> </tr> <tr> <td>Dau blentyn o'r un rhyw (unrhyw oed)</td> <td>Un llofft (lle i 2 wely)</td> </tr> </tbody> </table> <p>Er enghraifft, bydd angen 2 lofft ar gwpl ag un plentyn. Os yw'r plentyn yn rhannu llofft â'r rhieni, rhoddir 20 pwynt.</p> <p>Ni fyddai disgwyl i blentyn unigol o unrhyw oed rannu llofft ag aelod arall o'r teulu heblaw brawd neu chwaer e.e. taid neu nain.</p> <p>Gall ymgeisydd sengl rannu llofft â brawd neu chwaer</p>	Teulu	Nifer y llofftydd ychwanegol sydd eu hangen	Rhiant sengl	Un llofft (lle i 1 gwely)	Cwpl	Un llofft (lle i 2 wely)	Un plentyn	Un llofft (lle i 1 gwely)	Dau blentyn dan 8, un o bob rhyw	Un llofft (lle i 2 wely)	Dau blentyn gwahanol ryw dros 8	Dwy lofft (lle i 2 wely)	Dau blentyn o'r un rhyw (unrhyw oed)	Un llofft (lle i 2 wely)	<b>20</b>
Teulu	Nifer y llofftydd ychwanegol sydd eu hangen															
Rhiant sengl	Un llofft (lle i 1 gwely)															
Cwpl	Un llofft (lle i 2 wely)															
Un plentyn	Un llofft (lle i 1 gwely)															
Dau blentyn dan 8, un o bob rhyw	Un llofft (lle i 2 wely)															
Dau blentyn gwahanol ryw dros 8	Dwy lofft (lle i 2 wely)															
Dau blentyn o'r un rhyw (unrhyw oed)	Un llofft (lle i 2 wely)															
	<p>Fodd bynnag, ni fydd y Cyngor yn rhoi pwyntiau i ymgeisydd os bydd modd osgoi gorlenwi drwy ad-drefnu lle mae pobl yn cysgu, neu os ydynt wedi gorlenwi'r tŷ'n fwiadol. Nid yw hyn yn cynnwys achosion lle mae aelod o'r teulu yn symud i'r eiddo i gael gofal neu i roi gofal. Rhoddir pwyntiau ar ôl gweld prawf o fudd-dal plant.</p>															

	Os oes gan yr ymgeisydd blant a hawl i'w gweld yn unig, ni chaiff bwyntiau gorlenwi os oes gan y rhiant arall ddigon o le iddynt gysgu. Bydd angen prawf. Dan yr amgylchiadau hyn, dim ond fflatiau a fflatiau deulawr fydd ar gael .	
	<p>Ystyrir trefniadau cysgu pawb sy'n cysgu yn yr eiddo, ond mae angen prawf preswyliaeth ar gyfer pawb.</p> <p>Os dim ond lle i 1 gwely sengl sydd mewn ystafell bydd hynny'n golygu = lle i 1 gwely. Felly os oes 2 berson yn rhannu ystafell, rhoddir 20 pwynt.</p> <p>At ddibenion asesu gorlenwi, bydd parlwr yn cael ei gyfrif fel llofft ychwanegol (dim ond os yw'n ystafell ar wahân, ni fydd yn cael ei chyfrif os oes raid cerdded drwyddi i gyrraedd ystafell arall).</p> <p>Os oes ymgeisydd sengl yn byw mewn fflat un ystafell, ni fydd yn cael dim pwyntiau gorlenwi. Os yw cwpl yn byw mewn fflat un ystafell, byddant yn cael 20 pwynt.</p> <p>Os yw perthynas yn chwalu, rhaid i'r ymgeisydd ddangos tystiolaeth o hynny os ydynt yn dal yn rhannu eiddo ac os yw'n dymuno cael ei asesu i gael lle fel person sengl e.e. hawliadau gwahanol am gymhorthdal incwm, wedi tynnu ei enw oddi ar y morgais.</p> <p>Nid oes pwyntiau gorlenwi ar gael i deuluoedd sydd mewn llety dros dro neu lety â chymorth.</p>	
<b>Rhannu cyfleusterau</b>	Os yw ymgeisydd yn rhannu cyfleusterau (ystafell fyw, cegin, ystafell ymolchi) gydag eraill na fyddent yn symud gyda nhw.	
	Teuluoedd â phlant neu'n disgwyl plentyn	<b>15</b>
	Cyplau neu bobl sengl dros 35 oed	<b>10</b>
	Pobl sengl dan 35 oed	<b>5</b>
	Nid yw'r pwyntiau hyn ar gael i ymgeiswyr sydd mewn llety dros dro neu lety â chymorth.	
<b>Diffyg cyfleusterau</b>	<p>Rhoddir y pwyntiau hyn os nad yw'r canlynol i'w cael yn yr eiddo:</p> <p>Toiled.</p> <p>Bath neu gawod.</p> <p>Cyfleusterau coginio digonol.</p> <p>Cyflenwad dŵr poeth.</p> <p>Cyflenwad dŵr oer.</p> <p>Cyflenwad trydan</p>	<b>10 am bob un.</b>
<b>Cyflwr yr eiddo</b>	Nodwyd bod perygl Categori 1 y mae angen gweithredu arno	<b>40</b>
	Nodwyd bod perygl Categori 1 y mae angen gweithredu arno.	<b>20</b>
	Os cymerir camau i unioni'r sefyllfa, caiff y pwyntiau eu tynnu'n ôl. Ni roddir pwyntiau am gyflwr yr eiddo os rhoddwyd pwyntiau oherwydd diffyg cyfleusterau	
<b>Atal</b>	Ymgeiswyr sydd mewn perygl o fod yn ddigartref heb fod	<b>30</b>

<b>digartrefedd</b>	unrhyw fai arnynt (anfwriadol) ac y mae'n debygol y bydd angen rhoi blaenoriaeth i'w hanghenion os nad oes modd iddynt osgoi bod yn ddigartref o fewn cyfnod o 56 diwrnod. Rhoddir pwyntiau ar ôl i'r Tîm Dewisiadau Tai asesu'r sefyllfa. Gall enghreifftiau gynnwys teuluoedd sy'n derbyn rhybudd Adran 21 gan fod y landlord am werthu'r eiddo, neu achosion lle bydd prosesau cymedroli a chyd-drafod yn llwyddo i gynnal y llety am gyfnod byr yn unig.	
<b>Digartrefedd</b>	Ymgeiswyr sy'n ddigartref yn anfwriadol ac y rhoddir blaenoriaeth i'w hanghenion. Ymgeiswyr sy'n ddigartref yn anfwriadol ond na roddir blaenoriaeth i'w hanghenion. Ymgeiswyr sy'n ddigartref yn fwriadol ac y rhoddir blaenoriaeth i'w hanghenion. Ymgeiswyr sy'n ddigartref yn fwriadol ond na roddir blaenoriaeth i'w hanghenion. Rhoddir y pwyntiau hyn yn dilyn asesiad gan y Tîm Dewisiadau Tai.	<b>50</b> <b>20</b> <b>10</b> <b>5</b>
<b>Pwyntiau ychwanegol</b>	Ar ôl cyfnod o 12 mis di-dor mewn llety dros dro. Mae hyn yn gymwys dim ond yw'r Tîm Dewisiadau Tai wedi cytuno ar leoliad. Nid yw'r pwyntiau hyn ar gael i gwsmeriaid sy'n byw mewn llety â chymorth	<b>20</b>
	Ar ôl cyfnod o 24 mis di-dor mewn llety dros dro. Nid yw'r pwyntiau hyn ar gael i gwsmeriaid sy'n byw mewn llety â chymorth	<b>20</b>
<b>Symud i eiddo llai</b>	Tenantiaid Cyngor Sir y Fflint yn byw mewn eiddo sy'n rhy fawr iddynt ac os ydynt yn dymuno symud i eiddo llai. Mae hyn yn sicrhau'r defnydd gorau o'r stoc tai ac mae'n caniatáu i gwsmeriaid symud pan nad ydynt yn gallu fforddio aros mewn eiddo mawr.  E.e. person sengl dros 60 oed sy'n byw mewn tŷ 3 llofft sydd am symud i lety cysgodol. Person sengl sy'n byw yn nhŷ 2 llofft ei fam. Gellir defnyddio'r pwyntiau hyn hefyd os yw rhiant sengl ag 1 plentyn yn cael trafferth fforddio byw mewn tŷ 3 llofft	<b>100</b>
<b>Lles</b>	Cwsmeriaid â phlant dan 10 oed neu ferch feichiog sy'n byw mewn fflat uwchben y llawr daear, a does dim lifft. Mae'r pwyntiau hyn ar gael hefyd i gwsmeriaid 60 oed + nad ydynt yn gallu dringo grisiau a lle nad oes lifft. Nid oes modd cael y pwyntiau hyn a phwyntiau meddygol hefyd. Bydd angen i Therapydd Glawedigaethol ddod draw i'ch asesu.	<b>40</b>
	Teulu â phlant dibynnol sy'n gorfod byw ar wahân gan nad oes eiddo ar gael sy'n ddigon mawr i'r teulu cyfan. Bydd angen dangos prawf cyn rhoi'r pwyntiau. E.e. hawliadau cymhorthdal incwm newid cyfeiriad banc, biliau'r cartref etc.	<b>10</b>
<b>Symud ymlaen</b>	Cwsmer sy'n byw mewn llety â chymorth ac sy'n barod i symud ymlaen i fyw'n annibynnol heb y cymorth a gaiff ar hyn o bryd. Bydd angen prawf ategol gan y darparwr cymorth presennol.	<b>30</b>
<b>Caledi</b>	Cwsmer sydd am symud i ardal benodol yn Sir y Fflint, a	<b>10</b>

	<p>phe na bai hynny'n digwydd, byddai'n arwain at galedi (iddyn nhw ac eraill).</p> <p>Ystyrir unrhyw effaith ariannol ar y cwsmer, y pellter y mae'n rhaid iddynt ei deithio'n rheolaidd, a lefel y cymorth a geir ar hyn o bryd ac anghenion y cwsmer neu'r sawl y mae'n gofalu amdano.</p> <p>(Ni fydd y pwyntiau hyn ar gael os yw'r ymgeisydd eisoes wedi cael 20 o bwyntiau meddygol oherwydd bod angen cymorth a gofal cymdeithasol arno sy'n ymwneud â phroblemau meddygol)</p>	
<b>Pwyntiau rheoli</b>	<p>Dim ond y Pennaeth Tai all roi'r pwyntiau hyn, a hynny ar y cyd â'r Aelod Gweithredol (neu ddirprwyon enwebedig) i gwsmeriaid sydd am symud a, drwy hynny, byddai stoc tai'r Cyngor y cael ei ddefnyddio yn y modd orau. Er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwsmer sy'n barod i symud i eiddo mwy addas.</li> <li>• Cwsmer sydd am aros mewn tŷ Cyngor ar ôl marwolaeth y cyn denant, er nad oes gan y cwsmer hawl statudol i'w olynu.</li> <li>• Staff y Cyngor sy'n byw mewn llety sydd ynghlwm wrth eu swydd neu sy'n dymuno ymddeol.</li> <li>• Rhaid dymchwel eiddo.</li> <li>• Mae'r cwsmer wedi symud i eiddo arall i ganiatáu i Gyngor Sir y Fflint ymgymryd â gwaith trwsio sylweddol ac mae'n dymuno aros yn yr eiddo hwnnw, ac mae hynny'n golygu bod y stoc tai yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyf effeithiol.</li> </ul> <p>Neu</p> <p>Os oes angen ailgartrefu cwsmer fel mater o frys, ac nid yw'r pwyntiau a roddwyd o dan y cynllun pwyntiau'n adlewyrchu'r brys e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• digwyddiadau hiliol</li> <li>• cam-drin rhywiol</li> <li>• trais domestig</li> <li>• ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol</li> <li>• darparu cartref er mwyn maethu neu fabwysiadu</li> <li>• cartrefu ymgeiswyr drwy MAPPA/MARC</li> </ul> <p>hwyluso amcanion tai strategol e.e. prosiectau adnewyddu ac adfywio.</p>	<b>100</b>
	Achosion llai difrifol y mae'n gymwys rhoi pwyntiau rheoli iddynt.	<b>50</b>
<b>Pwyntiau cosb</b>	<p>Rhoddir llai o flaenoriaeth i gwsmer a didynnir 10 pwynt am bob £100 o ddyled os oes gan y cwsmer:</p> <p>Unrhyw ddyledion yn ymwneud â thai i'r Cyngor: ôl-ddyledion rhent, neu gyn ôl-ddyledion rhent, dyledion am waith trwsio. Ystyrir hefyd ddyledion i landlordiaid eraill.</p> <p>Ni fydd pwyntiau cosb yn gymwys os gall y cwsmer ddangos fod dyledion morgais neu ddyledion a gronnwyd tra oedd yn byw mewn eiddo yn y sector cyhoeddus i'w priodoli i'r ffaith nad oedd yn gallu fforddio'u talu e.e. os yw ei amgylchiadau wedi newid ar ôl colli swydd neu oherwydd prinder arian neu newidiadau yn ei fudd-dal tai.</p>	<b>10 am bob £100</b>

<p>Os yw cwsmeriaid yn torri amodau eu cytundeb tenantiaeth presennol neu'r cytundeb blaenorol, ac os nad yw wedi cadw'r eiddo mewn cyflwr da neu os yw wedi difrodi'r eiddo, bydd cost y gwaith trwsio'n cael ei gymhwyso fel pwyntiau cosb.</p> <p>Yn achos tenantiaid Cyngor Sir y Fflint, caiff y pwyntiau cosb eu cyfrifo drwy ddefnyddio Rhestr Cyfraddau'r Cyngor.</p>		
	<p>Mewn achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol nad yw'n arwain at eithrio'r cwsmer, bydd yn cael llai o flaenoriaeth drwy gyfrwng pwyntiau cosb. E.e. Rhybudd ceisio Meddiant</p>	<p><b>100</b></p>
<p>Os yw cwsmer â phwyntiau cosb yn cael ei roi ar restr fer am eiddo, bydd naill ai'n gorfod clirio'r ddyled yn llawn neu ddangos ei fod yn talu'n rheolaidd i ostwng y ddyled dros gyfnod o 6 mis, neu yn achos Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, bydd angen dangos na fu rhagor o achosion tebyg am 6 mis. Cynigir cymorth tenantiaeth i sicrhau bod y denantiaeth yn gynaliadwy.</p> <p>Rhoddir pwyntiau'n ôl i'r cwsmer ar ôl i'r problemau gael eu datrys. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw rhoi gwybod i'r Cyngor os yw'n credu y dylid rhoi pwyntiau'n ôl.</p> <p>Os oes gan ymgeisydd angen difrifol o ran tai, neu os yw'n ddigartref, gall hynny gael blaenoriaeth dros unrhyw bwyntiau cosb. Caiff pob achos ei asesu'n ôl ei deilyngdod ei hun gan y Rheolwr Tai Cymdogaeth perthnasol.</p>		
<p><b>Pwyntiau a didynnir</b></p>	<p>Os oes gan y cwsmer y modd ariannol i ddatrys eu problem eu hunain e.e. ecwiti mewn eiddo, cynilion, buddsoddiadau etc i brynu neu rentu eiddo, didynnir pwyntiau. D.S. dim ond ar ôl croesi'r trothwy o £100,000.</p>	<p><b>10 am bob £50k (dros y trothwy o £100k)</b></p>